Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll
Cofnodion Cyfarfod 29ain Hydref 2013

Presennol: A. Mummery, A. Jones, J. Roberts, G. Parry, B. Jones, E. Parry, Mervyn Jones, G. C. Jones. Meirion Jones. Cynghorydd Sirol J. Evans
Jackie Lewis, Menter Môn - diweddariad Cynllun Adfywio Pentrefol yn unig

1. Ymddiheuriadau: H. Huws, P. Roberts, D. Williams, A. Williams, A. Thomas

2. Datganiadau Diddordeb - Bethan Jones - Materion yn ymwneud â Phwyllgor Ffrindiau Parc y Gors

Eitem Ychwanegol - Ymweliad gan Jackie Lewis, Menter Môn
Croesawyd Jackie Lewis i'r cyfarfod i drafod y Grant Adfywio Pentrefol. Y prif bwyntiau i'w nodi oedd -

- Y cynllun wedi'i ymestyn hyd at fis Mawrth 2014.
- Nodwyd bod £9000 ar ôl i'w wario.
- Cynllun adeiladu gwelyau blodau ac arwyddion newydd i'r pentref yn symud yn ei flaen.
- Pris wedi'i dderbyn gan Medwyn Williams am brynu a gosod blodau i holl welyau blodau'r Cyngor Bro. Cytunwyd i dderbyn y pris a gofyn i Mr Williams symud ymlaen gyda'r gwaith.
- Bydd angen i'r Clerc anfon copïau o'r holl gyfathrebu a'r cofnodion yn ymwneud a'r grant y ogystal â lluniau o'r gwaith sydd wedi'i gwblhau.

Diolchwyd i Jackie am ei chymorth gyda'r fenter ac am fynychu'r cyfarfod.

3. Materion y Cyngor Sir
Adroddwyd bod y Cyngor Sir yn ceisio gwneud arbedion ariannol ac yn trafod codi am wasanaethau fel torri gwair, goleuo cynteddau mewn fflatiau ayb.
Nifer o bobl yn yr ardal wedi derbyn rhybuddion unochrog gan y Gofrestrfa Tir yn ymwneud *Lord Treffos.* Nodwyd bod angen i berchnogion tai cwblhau ffurflen UN4 a'i ddychwelyd i'r Gofrestrfa Tir. Ni does ffi am wneud hyn. A. Mummery a J. Evans gyda chopïau o'r ffurflen UN4 os bydd unrhyw un angen copi.

4. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion 24ain Medi 2013
Cynigwyd gan A. Jones ac eiliwyd gan. Roberts. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion
5.1 Maes Parcio'r Gors - derbyniwyd ymateb gan Huw Percy, Cyngor Sir yn amlinellu'r opsiynau ar gael i greu maes parcio talu ac arddangos. Pwyllgor Amgylchedd ac Eiddo i edrych ar symud ymlaen i wneud cais.
5.2 Cyfarfod Un llais Cymru - H. Huws i adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf.
5.3 Dyletswyddau'r Tirmon - Meirion Jones i wneud ymholiadau pellach ynglŷn ag oblygiadau cyfreithiol y Cyngor Bro.
5.4 Y Gynghrair Iaith - adroddodd G. Jones fod cyfarfod wedi cymryd lle yn yr Eisteddfod a gofynnwyd am gytundeb gan y Cynghorau. Y Clerc i ofyn am fanylion gan y gynghrair er mwyn i'r Cyngor llawn ei drafod.
5.5 Neuadd Goffa - Y cadeirydd, Is Gadeirydd, Meirion Jones, a'r Clerc wedi cyfarfod gyda Gerallt Llewelyn, Menter Môn i drafod y grantiau sydd ar gael ar gyfer cynlluniau o'r fath. Cyfarfod eto ar y 6ed o Dachwedd.
5.6 Twr Marcwis - y Clerc heb gysylltu eto.
5.7 Cais i godi Tyrbin Gwynt ar dir Tŷ Gwyn, Penmynydd wedi'i wrthod gan y Cyngor Sir.
5.8 Swydd Clerc a swyddog Cyllid - cyflwynwyd swydd ddisgrifiadau ddrafft ar gyfer y ddwy swydd. Cytunwyd i'r Clerc hysbysebu'r swydd y Clerc. Cytunwyd i rannu'r cyflog cyfredol o £6200 y flwyddyn 60% Clerc a 40% Swyddog Cyllid. Dyddiad cau 6ed Rhagfyr 2013.
5.9 Gwasanaeth Sul y Cofio wedi'i drefnu. Nodwyd bod y sgowtiaid yn awyddus i chwarae rhan yn y gwasanaeth ac am wneud y casgliad.
5.10 Mynedfa Co-op - y Clerc i gysylltu â'r co-op i dynnu sylw at y problemau o gwmpas y fynedfa.
5.11 Bin Baw Ci - y Clerc i ddilyn i fyny gyda'r Cyngor Sir.
5.12 Damwain Car ger pont Britannia/A5 - nodwyd bod y Cyngor Sir yn edrych ar gysondeb cyfyngiadau cyflymder ar draws y sir. Nodwyd hefyd bod y gilfan ger y bont am gael ei chau.

6. Cofnodion Pwyllgor Meysydd Chwarae Hydref 15fed 2013
Cynigwyd gan B. Jones ac eiliwyd gan A. Jones. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

7. Materion yn codi o'r cofnodion
7.1 Adroddwyd bod y Pwyllgor Ffrindiau Parc y Gors wedi symud ymlaen i agor cyfrif banc ac wedi derbyn £1000 gan Magnox. Tudalen Facebook wedi'i greu ar gyfer codi ymwybyddiaeth. Stephen Edwards wedi drafftio cynlluniau ar gyfer y maes chwarae.
7.2 Ffair Gaeaf yn cymryd lle 1af Rhagfyr. Y Cyngor Bro yn cyfrannu £100 tuag at y goeden Nadolig. Y Pwyllgor i gymryd cyfrifoldeb am y goeden.

8. Cofnodion Pwyllgor Cyllid Hydref 15fed 2013
Cynigwyd gan A. Mummery ac eiliwyd gan G. C. Jones. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

9. Materion yn codi o'r cofnodion
Datganwyd diddordeb gan Bethan Jones are item 3. Rhodd i Bwyllgor Ffrindiau Parc y Gors.
Cytunwyd i roi £500 yn ô li gyfrif y Fynwent.
Cytunwyd i roi £100 i Bwyllgor Ffrindiau Parc y Gors.
Ni chymerodd B. Jones ran yn y drafodaeth.

10. Ceisiadau Cynllunio
Tŷ Coch - newidiadau i'r cynllun gwreiddiol - dim sylw penodol ond dal i bryderu am y fynedfa.
Menai House - dim sylw
2 Ffordd Gwenllian - dim sylw

11. Cyfrifon mis Hydref 2013
Cyflwynwyd taenlen mis Hydref gyda rhestr taliadau a derbyniadau. Nodwyd bod problemau gyda mesurydd dwr y Clwb Bowlio bellach wedi'u datrys. Y clerc i ail wneud cais am ostyngiad yn y biliau gan nad yw'r dŵr yn mynd i'r traeniau cyhoeddus.
Neuadd Goffa - taliad rhannol o £500 i British Gas. Y Clerc yn cael trafferth cael darlleniad o'r mesurydd.
Cynigwyd gan E. Parry ac eiliwyd gan M. Jones. Derbyniwyd y cyfrifon a chytunwyd i'r taliadau.

12. Gohebiaeth
12.1 Penderfyniadau cynllunio - er gwybodaeth
12.2 Clerk & Councils direct - cylchgrawn

13. Unrhyw Fater Arall
13.1 Bocsys halen - A. Mummery wedi rhoi rhestr i'r Cyngor Sir.
13.2 J. Roberts wedi mynychu cwrs gan Un Llais Cymru "Y Cyngor". Nodwyd bod y cwrs yn ddiddorol a defnyddiol.
13.3 Cyfarfod Blynyddol y Clwb Snwcer wedi cymryd lle. Nodwyd bod 35 o aelodau a bod tua £2,000 yn y cyfrif.
13.4 Llongyfarchwyd Derfel ac Elana Gilford ar lwyddiant "noson gyda Wali Thomas".
13.5 Diolchwyd i E. Parry a'r Gwasanaeth Prawf am eu gwaith o amgylch y Gors a'r maes parcio.

Dyddiad cyfarfod nesaf - Nos Fawrth 26ain Tachwedd am 7.00 yn y Neuadd Goffa.

Arwyddwyd ..... (Cadeirydd) .....Dyddiad